

## Ystadegau Medr

### Ansawdd a Methodoleg: Myfyrwyr mewn Addysg Uwch, 2023/24

<b>Cyfeirnod:</b>	Sta/Medr/09/2025 - <b>Atodiad A</b>
<b>Dyddiad:</b>	15 Ebrill 2025
<b>Dynodiad:</b>	Ystadegau Swyddogol (gweler <a href="#">newid yn y statws ystadegau achrededig</a> )
<b>E-bost:</b>	<a href="mailto:YstadegauAU@medr.cymru">YstadegauAU@medr.cymru</a>
<b>Crynodeb:</b>	<b>Gwybodaeth am ansawdd a chynhyrchu'r cyhoeddiad 'Myfyrwyr mewn Addysg Uwch, 2023/24'</b>
<b>Thema:</b>	Addysg Uwch
<b>Ffynhonnell:</b>	Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)



## Cynnwys

Ffynhonnell y data .....	2
Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) .....	2
Cwmpas a diffiniadau .....	2
Talgrynnu.....	3
Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd .....	3
Perthnasedd .....	3
Cywirdeb.....	3
Amseroldeb a phrydlondeb .....	4
Hygyrchedd ac eglurder .....	4
Cymharedd a chydlyniad.....	4
Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau .....	4
Newid yn y statws ystadegau achrededig .....	5

## Ffynhonnell y data

### Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

Mae cofnod Myfyrwyr HESA wedi bod yn cael ei gasglu ers 1994/95 gan ddarparwyr AU sy'n tanysgrifio ledled gweinyddiaethau datganoledig y Deyrnas Unedig. Mae'r data a gesglir fel rhan o'r cofnod Myfyrwyr yn cael ei ddefnyddio'n helaeth gan amryw randdeiliaid.

Mae Jisc, y mae HESA yn rhan ohono, yn darparu crynodeb o'r [broses casglu data](#) ar wefan HESA, gan gynnwys yr holl reolau ansawdd a ddefnyddir.

Casgliad data 2023/24 oedd yr ail flwyddyn y defnyddiwyd model data newydd. Pan roddwyd y model newydd hwn ar waith yn 2022/23 fe gododd heriau sylweddol a oedd yn golygu bod mwy o faterion gydag ansawdd y data nag arfer. Yng nghasgliad data 2023/24 fe leihaodd y materion hyn, er bod rhai heriau i ddarparwyr o hyd. Mae Jisc wedi darparu gwybodaeth am ansawdd y casgliad data myfyrwyr ar [wefan HESA](#).

## Cwmpas a diffiniadau

Mae'r data ar gofrestrïadau myfyrwyr yn seiliedig ar boblogaeth gofrestru safonol HESA.

Mae'r data ar gymwysterau a ddyfarnwyd yn seiliedig ar boblogaeth ennill cymwysterau HESA.

Ceir rhagor o wybodaeth am y poblogaethau hyn ar y dudalen [diffiniadau o fyfyrwyr](#) ar wefan HESA.

### Amddifadedd

Mae gwybodaeth sy'n dynodi a yw myfyrwyr o ardaloedd amddifadus yn seiliedig ar [Fyngai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019](#) a chod post cartref y myfyriwr ar adeg mynediad i'w gwrs.

### Gwlad y mae myfyrwyr yn hanu ohoni

Mae'r wlad y mae myfyrwyr yn hanu ohoni'n seiliedig ar eu cyfeiriad cartref parhaol ar adeg mynediad i'w cwrs.

### Ethnigrwydd

Myfyrwyr o gefndir ethnig leiafrifol yw'r rhai lle nad yw ethnigrwydd myfyriwr yn 'Wyn' na 'Ddim yn berthnasol neu ddim yn hysbys' yn y newidyn [Z ETHNICGRP2](#) yng nghofnod myfyrwyr HESA. Felly mae'n cynnwys yr holl fyfyrwyr lle mae'r ethnigrwydd yn cyfateb i un o'r categorïau canlynol:

- Asiaidd
- Du
- Cefndiroedd ethnig cymysg neu luosog
- Unrhyw gefndir ethnig arall

## Darparwyr

Mae'r darparwyr AU yng Nghymru a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys darparwyr yng Nghymru a gyllidir yn uniongyrchol ar gyfer darpariaeth addysg uwch gan Medr a darparwyr yng Nghymru sy'n dychwelyd data i HESA ynghylch cyrsiau addysg uwch a ddynodwyd yn benodol.

Mae data 2023/24 yn cynnwys data ar gyfer 6 darparwr nad oeddent wedi cyflwyno data i gofnod myfyrwyr HESA yn flaenorol, sef:

- Y Ganolfan Technoleg Amgen
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Coleg Cambria
- Coleg Gwent
- Athrofa Padarn Sant
- Ysgol Ddiwinyddol Union

## Talgrynnu

Mae ffigyrau wedi eu talgrynnu i'r 5 agosaf. Caiff cyfansymiau eu cyfrifo ar ffigyrau heb eu talgrynnu ac yna eu talgrynnu i'r 5 agosaf felly efallai na fyddant yn cyfateb i swm y rhannau cyfansoddol.

Caiff canrannau eu cyfrifo gan ddefnyddio'r ffigyrau heb eu talgrynnu ac yna eu talgrynnu i'r ganran gyfan agosaf. Eto fe all hyn olygu nad yw'r canrannau yn y datganiad hwn yn cyfateb i'r hyn y byddech yn ei gael o'r ffigyrau wedi eu talgrynnu. Os yw canran yn cael ei chyfrifo lle mae'r enwadur yn llai na 22.5 yna ni ddangosir y ganran.

## Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

### Perthnasedd

Defnyddir yr ystadegau o fewn Medr, Llywodraeth Cymru a chan eraill i fonitro tueddiadau addysgol ac fel llinell sylfaen ar gyfer dadansoddi'r data sylfaenol ymhellach. Rhai o'r defnyddwyr allweddol yw:

- Swyddogion ac aelodau o'r Bwrdd yn Medr
- Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn y Senedd
- Swyddogion yn Llywodraeth Cymru
- Adrannau eraill y Llywodraeth
- Darparwyr a chyrrff cynrychioliadol Addysg Uwch
- Myfyrwyr, ymchwilwyr, ac academyddion
- Dinasyddion unigol, cwmnïau preifat, a'r cyfryngau

### Cywirdeb

Ceir nifer o brosesau dilysu i sicrhau bod data a gyflwynir i gofnod myfyrwyr HESA o ansawdd da. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio data yn erbyn rheolau ansawdd a gwiriadau yn erbyn data o flynyddoedd blaenorol. Mae unrhyw faterion a ganfyddir trwy'r gwiriadau

hyn yn cael eu codi gyda darparwyr fel y gallant naill ai darparu eglurhad neu gyflwyno data wedi ei gywiro os oes gwall. Mae hon yn broses ailadroddol lle mae data'n mynd trwy'r broses hon sawl gwaith nes ei fod yn barod i gael ei gymeradwyo.

Mae Medr hefyd yn cwrdd â darparwyr trwy gydol y flwyddyn i gael dealltwriaeth am unrhyw faterion ansawdd data a all godi i ddarparwyr unigol.

## Amseroldeb a phrydlondeb

Mae cofnod myfyrwyr HESA yn casglu data ar ôl diwedd y flwyddyn academiaidd (1 Awst – 31 Gorffennaf). Cafodd Medr ddata 2023/24 ar gyfer pob darparwr ym mis Ionawr 2025. Cyhoeddodd Jisc ei Fwletin Ystadegol ar Ystadegau Addysg Uwch ar 20 Mawrth 2025, a data manylach yn ei ddatganiad Data Agored ar 3 Ebrill 2025. Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi cyn gynted â phosibl ar ôl hyn.

## Hygyrchedd ac eglurder

Gwneir cyhoeddiad rhag blaen ynghylch y datganiad ystadegol hwn ac yna fe'i cyhoeddir ar wefan [Medr.cymru](#).

Mae'r data ar gyfer myfyrwyr yn darparwyr Cymru yn yr adroddiad hwn ar gael ar [StatsCymru](#). Mae data ychwanegol ar gael ar wefan [Data Agored HESA](#).

## Cymharedd a chydlynid

Mae cofnod Myfyrwyr HESA yn gasgliad data ar lefel y DU gyfan, ac mae gwefan Data Agored HESA yn cynnwys data cyfatebol ar gyfer addysg uwch yng ngwledydd eraill y DU.

## Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein harfer ystadegol ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). OSR sy'n pennu'r safonau dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#) y dylai'r holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol ymlynu wrtho.

Caiff ein holl ystadegau ni eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau i wella dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Caiff y rhain eu nodi yn [Natganiad Cydymffurfio](#) Medr â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae'r ystadegau swyddogol hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y ffyrdd canlynol.

## Dibynadwyedd

Cynhyrchwyd yr ystadegau hyn yn unol â [Datganiad Cydymffurfio](#) Medr a'n [polisi ar weld ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau](#).

## Ansawdd

Daw'r data o gofnod Myfyrwyr HESA sy'n casglu data gan ddarparwyr addysg uwch. Pan gyflwynir y data rhaid iddo fodloni rhai rheolau dilysu penodol. Pan fo'r ystadegau'n cael eu cynhyrchu fe gyflawnir gwiriadau ansawdd gan yr ystadegwyr.

## **Gwerth**

Cynhyrchir yr ystadegau hyn i ddarparu mewnwelediad i niferoedd y bobl o Gymru sy'n astudio mewn darparwyr AU ledled y DU ac i niferoedd y myfyrwyr sy'n astudio yn narparwyr AU Cymru.

Mae hyn yn darparu mynediad rhwydd at ddata o gofnod myfyrwyr HESA sy'n benodol i Gymru, ac mae hefyd yn sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg.

## **Newid yn y statws ystadegau achrededig**

Arferai'r ystadegau hyn gael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru fel Ystadegau Gwladol (a adwaenir bellach fel Ystadegau Swyddogol Achrededig). Gan bod yr ystadegau bellach yn cael eu cyhoeddi gan sefydliad newydd, mae'r statws Ystadegau Swyddogol Achrededig wedi cael ei ddileu dros dro.

Mae Medr wedi parhau â'r systemau a phrosesau ar gyfer cynhyrchu'r ystadegau a ddefnyddid gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r ystadegwyr sy'n cynhyrchu'r ystadegau'n cynnwys ystadegwyr a arferai gynhyrchu ystadegau addysg bellach, dysgu seiliedig-ar-waith a dysgu cymunedol yn Llywodraeth Cymru.

Bydd OSR yn asesu'r prosesau sydd gan Medr fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol. Bydd OSR yn asesu a yw'r ystadegau'n ateb y gofynion ar gyfer Ystadegau Swyddogol Achrededig.

# Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil  
Commission for Tertiary Education and Research

[www.medr.cymru](http://www.medr.cymru)

2 Cwr y Ddinas  
Stryd Tyndall  
Caerdydd  
CF10 4BZ

2 Capital Quarter  
Tyndall Street  
Cardiff  
CF10 4BZ



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**